Fy nhaith ddysgu yn **Y Gymraeg**

Uned ymholi: **Sut mae'r môr yn dylanwadu ar ein bywydau?**

Gwybodaeth a dysgu blaenorol: Ystyried geirfa ac amrywiaeth cystrawen. Sgiliau trafod a rhesymu ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Y pedwar diben: **cefnogi ei dysgwyr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau; yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Yn ystod eich taith byddwch yn datblygu sgiliau:

- **Datblygu geirfa ac ansoddeiriau**
- **Cymharu cerddi**
- **Defnyddio geirfa cymharu**
- **Ymchwilio a chyfannu gwybodaeth o ddarnau darllen, ffilm lego a chân**
- **Defnyddio geirfa dehongli ffeithiau**
- **Datblygu sgiliau creadigol**
- **Cywain a chyfuno gwybodaeth**
- **Lleoli ffeithiau**
- **Crynhoi gwybodaeth**
- **Datblgu sgil dethol gwybodaeth berthnasol**
- **Sgimio a sganio**
- **Datblygu sgil trawsieithu wrth wylio a darllen ffeithiau yn y Saesneg**
- **Ysgrifennu erthygl**
- **Cyd weithio mewn grwp**
- **Trafod syniadau a dod i benderfyniad a chasgliad**
- **Ystyried a thrafod safbwynt bardd**
- **Ysgrifennu gwerthfawrogiad o gerdd**
- **Sgil gwethfawrogi ,dadansoddi cynnwys ac arddull**
- **Gwirio Gwaith**
- **Gwylio penodau o Itopia**

Yn ystod eich taith byddwch yn cyflawni:

- **Storm eirfa ar y thema ac yn dysgu a defnyddio ansoddeiriau addas**
- **Astudio dwy gerdd ar thema y môr a'u cymharu .**
- **Trafod arddull cerdd a datblygu geirfa i ddangos pwrpas arddull**
- **Cyfuno gwybodaeth am Barti Ddu**
- **Cyflwyno ffeithiau am Barti ddu yn addas ar gyfer disgyblion 7,8,9**
- **Ysgrifennu erthygl yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am lygredd yn y môr a'r problemau sydd yn cael eu hachosi. Cynnig canllawiau sut i wella'r broblem.**
- **Astudio cerdd Y Môr Einir Jones a thrafod ei safbwynt.**
- **Trafod arddull y gerdd a'i effaith**
- **Ysgrifennu gwerthfawrogiad o gerdd.**
- **Tasgau nofel ddosbarth**
- **Tasgau trafod 'Itopia' o ran cynnwys , cerddoriaeth a thechnegau ffilmio**

TASGAU:

Tasg 1: Cymharu dwy gerdd ar y thema Ar lan y môr / ysgrifennu am gerdd yn gysylltiedig â'r môr

Tasg 2: Cyflwyno gwybodaeth am Barti Ddu mewn modd addas i ddysgwyr 7,8 a 9

Tasg 3:Llythyr / Erthygl yn mynegi barn am lygredd yn y môr

Fy nhaith ddysgu yn **Y Gymraeg**

Uned ymholi: Ydi ofn yn brofiad personol?

Gwybodaeth a dysgu blaenorol: Ystyried geirfa ac amrywiaeth cystrawen. Sgiliau trafod a rhesymu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Datblygu meddwl creadigol. Datblygu empathi.

Y pedwar diben: **cefnogi ei dysgwyr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau; yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Yn ystod eich taith byddwch yn datblygu sgiliau:

- **Datblygu geirfa ac ansoddeiriau**
- **Trafod ofnau**
- **Datblygu sgil creadigol drwy ysgrifennu parodi**
- **Llunio sgript creadigol**
- **Cydweithio – animeiddiad ar Adobe Express. Lleisio cymeriadu**
- **Darn creadigol, disgrifiadol yn defnyddio technegau arddull**
- **Astudio a gwerthfawrogi drama**
- **Defnyddio ffeithiau o'r ddrama ar gyfer tasg greadigol**
- **Defnyddio adnabyddiaeth o gymeriadau a digwyddiadau ar gyfer sgriptio. Cydweithio.**
- **Datblygu sgiliau llafar a thechnoleg**
- **Astudio cerdd a deall cynnwys a thechnegau arddull**
- **Defnyddio adnabyddiaeth o gerdd i ysgrifennu parodi**
- **Ysgrifennu creadigol**
- **Trafod pennod o 'Itopia'**

Yn ystod eich taith byddwch yn cyflawni:

- **Storm eirfa ar y thema ac yn dysgu a defnyddio ansoddeiriau addas**
- **Parodi ar y gerdd 'Ofn'**
- **Creu sgript am ddau ddisgybl yn cael eu cloi yn yr ysgol un noson a beth ddigwyddodd iddynt**
- **Cyflwyno'r sgript ar ffurf animeiddiad ar Adobe Express**
- **Creu map o daith fwganllyd gan greu enwau addas ar gyfer lleoliadau**
- **Ysgrifennu darn disgrifiadol yn disgrifio'r daith . Angen cynnwys technegau arddull e.e. synhwyrau, ansoddeiriau, cymariaethau, berfau**
- **Darllen ac astudio drama 'Su mai Waaaa'**
- **Tasg adnabod cymeriadau**
- **Ysgrifennu e-bost gan un o'r cymeriadau**
- **Creu golygfa ychwanegol i ddiwedd y ddrama**
- **Ysgrifennu gwerthfawrogiad o'r gerdd 'Y Plas Gwag' gan drafod y cynnwys a'r arddull.**
- **Ysgrifennu parodi ar y gerdd 'Yr Ysgol Wag'**
- **Ysgrifennu stori arswyd wedi ei lleoli yn ardal Tywyn.**
- **Cyfuno gwybodaeth am ddirgelwch y Berwyn**
- **Creu Podlediad addas i ddysgwyr bl 7,8,9, am Ddirgelwch y Berwyn**
- **Darllen a chwblhau tasgau ar y nofel ddosbarth: Anfarwol, Pen Dafad**
- **Trafodaeth grŵp ar bennod o 'itopia' yn trafod cymeriadau a thechnegau ffilmio.**

TASGAU:

- Disgrifiad o daith fwganllyd
- Gwerthfawrogi cerdd.
- Trafodaeth ar bennod o 'Itopia'